Cyllido addysg uwch yng Nghymru: y datblygiadau diweddaraf

Dyraniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd (BAc) 2010/11

Wrth gadarnhau'r grant rheolaidd ar gyfer BAc 2010/11, esboniasom fod CCAUC wedi cymryd y byddai'r setliad ar gyfer y flwyddyn ariannol (BAr) 2011-12 yr un fath ag ar gyfer BAr 2010-11 (h.y. y byddai'r gyllideb addysg uwch ar gyfer BAr 2011-12, ar ôl tynnu allan elfennau wedi'u gwarchod, yr un fath yn nhermau arian parod ag ar gyfer BAr 2010-11). Esboniwyd ymhellach y byddai angen i'r sefydliadau wneud cynlluniau wrth gefn er mwyn bod yn barod ar gyfer unrhyw newidiadau posibl yng nghyllidebau BAr 2010-11 a 2011-12 (cylchlythyr W10/10HE, gweler paragraff 16: W10/10HE: Recurrent Grant 2010/11).

Yn dilyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC), daeth yn amlwg, os cadarnheir y gyllideb, y bydd ein dyraniad ar gyfer BAr 2011-12 yn is nag ar gyfer BAr 2010-11. O ganlyniad, mae CCAUC wedi cadarnhau y bydd gostyngiad o 4% yn y gyllideb ar gyfer BAc 2010/11, os na cheir unrhyw newidiadau mawr pellach yn y gyllideb a dderbyniwn gan LlCC.

Cynhelir y ddadl derfynol ar gyllideb y Cynulliad ar 8 Chwefror 2011. Byddwn yn cadarnhau'r trefniadau terfynol wedi hyn ond, fel y mae pethau ar hyn o bryd, dylai'r sefydliadau gynllunio ar gyfer gostyngiad o 4% yn eu grant ar gyfer BAc 2010/11.

Bydd y gostyngiad o 4% yng ngrant BAc 2010/11 cyfan y sefydliadau yn cael ei gyflawni drwy gymhwyso cynnydd mewn enillion effeithlonedd at y llinellau cyllideb canlynol: Addysgu (gan gynnwys, ar gyfer sefydliadau perthnasol, Ysgol Glinigol Gogledd Cymru), Ymchwil, YOR (ymchwil ôl-radd), Cyllid ar gyfer myfyrwyr rhan-amser (Graham), ac Arloesedd ac Ymwneud.

Er mwyn helpu'r sefydliadau i gynllunio ar gyfer y gostyngiad hwn, byddwn yn gwneud yr addasiadau angenrheidiol i daliadau grant mor hwyr â phosibl yn y flwyddyn academaidd bresennol, h.y. ym mis Gorffennaf 2011.